

Lesley Griffiths AC/AM
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig
Minister for Environment, Energy and Rural Affairs



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: LG/0284/19

Mike Hedges AC
Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Mike.Hedges@cynulliad.cymru

27 Mawrth 2019

Annwyl Mike,

Adroddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol mewn perthynas â Bil Pysgodfeydd y DU.

Yn dilyn fy llythyr dyddiedig 18 Chwefror, hoffwn ddiolch ichi am ystyriaeth y Pwyllgor o'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol mewn perthynas â Bil Pysgodfeydd y DU a'r adroddiad arno a gyhoeddwyd yn ddiweddar.

Rwyf wedi ystyried argymhellion y Pwyllgor yn ofalus ac rwyf wedi cynnwys ymateb i'r argymhellion yn unigol yn yr atodiad i'r llythyr hwn. Fodd bynnag, hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i roi mwy o fanylion am safbwynt Llywodraeth Cymru ar reoli pysgodfeydd ac ar rai elfennau o'r Bil.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Yr angen am ddeddfwriaeth a'r dull gweithredu a fabwysiadwyd

Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi Bil Pysgodfeydd y DU yn llwyr. Mae'n galluogi sefydlu fframwaith clir a chadarn ar lefel y DU ar gyfer rheoli ein pysgodfeydd, ac mae'n darparu'r pwerau a'r mecanweithiau rheoli angenrheidiol i'r Cynulliad a Llywodraeth Cymru i gyflawni ar ran ein pysgodfeydd penodol yng Nghymru, yn dilyn ein hymadawiad o'r UE. Yr hyn sy'n bwysig yw bod y Bil yn gwneud darpariaeth ar gyfer ymestyn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar faterion sy'n ymwneud â physgota, pysgodfeydd neu iechyd pysgod ym mharth Cymru. Mae hwn yn newid sylweddol ac yn gyflawniad i'w groesawu a oedd, fel y gwyddoch, yn llinell goch i mi.

Hyd nes y cyflawnir y cymhwysedd deddfwriaethol ehangach, byddai'n annoeth cyflwyno Bil Pysgodfeydd ar gyfer Cymru, a allai ond gwneud darpariaethau sy'n berthnasol i ddyfroedd mewndirol Cymru, pan fo ein cyfrifoldebau rheoli pysgodfeydd yn ymestyn i'n dyfroedd môr mawr.

Rwy'n gwerthfawrogi'r pryderon ynghylch defnyddio Bil y DU i wneud darpariaethau ar gyfer Cymru ac rwy'n credu'n gryf bod y darpariaethau yn y Bil yn rhai trosiannol nes y gallwn wneud deddfwriaeth sylfaenol yng Nghymru. Fodd bynnag, mae'n briodol ceisio'r pwerau hyn nawr er mwyn ein galluogi i gymryd camau cyflym a phendant yng Nghymru, mewn dyfodol ansicr, sy'n cyflwyno'r cyfleoedd mwyaf i'n polisi pysgodfeydd yn y dyfodol agos.

Ochr yn ochr â'r Bil, rydym wrthi'n drafftio ystod o Femoranda Cyd-ddealltwriaeth a fydd yn cadarnhau ac yn gwella'r arferion gwaith rhynglywodraethol da sydd gennym yn y maes hwn, gan gynnwys amlinellu mecanwaith datrys anghydfodau cytunedig a ffyrdd o weithio.

Amcanion a Datganiadau'n ymwneud â Physgodfeydd

Mae'r Bil, fel y'i draftiwyd ar hyn o bryd, yn nodi amcanion cyffredin y DU ar gyfer rheoli pysgodfeydd. Mae'r amcanion hyn yn adeiladu ar y rhai sydd wedi'u cynnwys yn y Polisi Pysgodfeydd Cyffredin, gan ddarparu lefel o gysondeb o ran ein dull gweithredu. Felly mae'r amcanion hyn yn gosod y cyd-destun ar gyfer polisi pysgodfeydd yng Nghymru, gweddill y DU a thu hwnt.

Bydd y Cyd-ddatganiad Pysgodfeydd (JFS) yn manylu ar ein polisïau ar gyfer cyflawni'r amcanion. Bydd y JFS yn adlewyrchu ein dull o reoli pysgodfeydd yng Nghymru sydd wedi'i fframio nid yn unig gan y deddfwriaeth ryngwladol ond hefyd gan ein tirwedd deddfwriaethol unigryw yng Nghymru gan gynnwys Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Gwn fod llawer o ddiddordeb yng nghynnwys y JFS, a hefyd yn Natganiad yr Ysgrifennydd Gwladol ar Bysgodfeydd. Ar hyn o bryd mae'n rhy gynnar i wneud sylwadau ar y cynnwys. Mae'r Bil yn nodi'r gofynion o ran ymgynghori a chraffu. Mae hefyd yn pennu'r dyddiad cau ar gyfer cynhyrchu'r JFS cyntaf.

Rwyf am roi sicrwydd i'r Pwyllgor y bydd y JFS yn cael ei ddatblygu mewn trafodaeth â rhanddeiliaid, gyda gwaith ymgysylltu cyn yr ymgynghoriad yn ogystal â'r broses ymgynghori ffurfiol. Bydd hyn yn rhoi cyfle i bob rhanddeiliad ddylanwadu ar gynnwys y JFS ac felly ein cyfeiriad polisi trosfwaol ar gyfer y 6 blynedd ddilynol.

Pan fyddwn yn gadael yr UE bydd ystod o swyddogaethau a phwerau, a arferwyd yn flaenorol ar lefel yr UE, yn cael eu harfer gan yr Ysgrifennydd Gwladol ar ran y DU neu'n cael eu harfer gan Weinidogion Cymru mewn perthynas â Chymru, parth Cymru a llongau Cymru. Mae stociau pysgod yn adnodd naturiol a rennir, nid yn unig o fewn y DU ond hefyd yn rhyngwladol. O ganlyniad mae angen Cytundeb Fframwaith Rheoli Pysgodfeydd i sicrhau bod yr adnodd hwn a rennir yn cael ei reoli'n effeithiol.

Y JFS yw conglaen y Cytundeb Fframwaith ar Reoli Pysgodfeydd. Bydd y fframwaith hwn yn cwmpasu ystod o atebion deddfwriaethol ac anneddfwriaethol yn amrywio o ddarpariaethau sydd wedi'u cynnwys o fewn Bil Pysgodfeydd y DU a deddfwriaeth yr UE a fydd yn cael ei chadw a bydd yn seiliedig ar amrywiaeth o Femoranda Cyd-ddealltwriaeth a Choncordatau. Bydd peth amser cyn y bydd y Fframwaith cyfan hwn ar waith a byddaf yn ysgrifennu at y Pwyllgor gyda manylion pellach pan fyddant ar gael.

Mynediad i Bysgodfeydd Prydain

Mae'r Bil Pysgodfeydd yn cadarnhau ac yn egluro ystod o ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â thrwyddedu cychod pysgota, gan egluro bod pob gweinyddiaeth yn gyfrifol am drwyddedu ei llongau ei hun. Mae'r Bil yn dirymu'r mynediad awtomatig sydd gan longau'r UE i ddyfroedd y DU, gan adlewyrchu trefniadau newydd lle y rheolir mynediad i Bysgodfeydd Prydain drwy drafodaethau blynyddol y Taleithiau Arfordirol. Mae'r Bil yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru drwyddedu cychod pysgota tramor yng Nghymru a pharth Cymru.

Fodd bynnag, wrth baratoi ar gyfer ymadawriad posibl cyn i Fil Pysgodfeydd y DU dderbyn Cydsyniad Brenhinol, mae Gweinyddiaethau'r Pysgodfeydd wedi cyflwyno deddfwriaeth eilaidd i'n galluogi i reoli llongau tramor yn Nyfroedd y DU yn y cyfamser. Mae swyddogion yn ystyried pa welliannau angenrheidiol y bydd angen eu gwneud i Fil y DU o ganlyniad i gyflwyno'r Offerynnau Statudol hyn.

Beth bynnag fydd y mecanwaith, bydd Awdurdod Dyroddi Sengl yn gweinyddu'r gwaith o drwyddedu cychod pysgota tramor yn ymarferol. Bydd yr Awdurdod yn darparu un pwynt cyswllt ar gyfer llongau tramor ac, ar gyfer Aelod-wladwriaethau Ewrop a'r Comisiwn. Y bwriad yw y bydd yr Awdurdod Dyroddi Sengl yn gweithredu ar ran Gweinidogion Cymru mewn perthynas â thrwyddedu cychod pysgota tramor yng Nghymru a pharth Cymru.

Ni fydd ein gallu i osod amodau trwydded priodol yn nyfroedd Cymru yn cael ei effeithio gan y bwriad i ddirprwyo swyddogaethau gweinyddol mewn perthynas â dyroddi trwyddedau i longau tramor.

Mae trafodaethau ar sefydlu'r Awdurdod Dyroddi Sengl yn parhau. Byddwn yn fodlon rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor ar yr adeg briodol, gan gynnwys unrhyw fanylion am y goblygiadau ariannol i Lywodraeth Cymru.

Cyfleoedd pysgota a chyfran o'r cwota

Rwyf wedi dweud yn gyson fy mod am i bysgotwyr Cymru gael eu cyfran deg o gyfleoedd pysgota yn nyfroedd Cymru. Rwyf wedi ysgrifennu at Weinidogion y DU yn mynegi fy marn a byddaf yn parhau i bwysu am setliad gwell. Dylid defnyddio unrhyw ail-gydbwysu o ran cyfran y cyfleoedd pysgota rhwng y DU a'r UE yn dilyn ein hymadawriad o'r UE i unioni'r anghydbwysedd hwn.

Pwerau o ran cymorth ariannol a chyllid yn y dyfodol

Rydym yn gweithio gyda Llywodraeth y DU a'r Gweinyddiaethau Datganoledig eraill i nodi cyfleoedd i gynyddu twf economaidd sectorau morol y DU i'r eithaf. Bydd y gwaith hwn yn llywio polisi o ran y ffordd orau o gefnogi twf cynaliadwy'r gwahanol sectorau diwydiant mewn ffordd strategol a symlach.

Mynediad i farchnadoedd

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda diwydiant i dyfu diwydiant pysgodfeydd Cymru, drwy Strategaeth Bwyd Môr Cymru sy'n cael ei harwain gan y diwydiant.

Marchnadoedd rhyngwladol - mae angen ystyried yn ofalus y ffaith bod y rhan fwyaf o'r bwyd môr a gynhyrchir yng Nghymru yn cael ei allforio yn fyw felly mae amseroedd cludo newyddau yn ystyriaeth ar gyfer marchnadoedd targed. Mae yna hefyd ystyriaethau diwylliannol a chrefyddol. Mae Llywodraeth Cymru yn hyrwyddo ei bwyd môr i farchnad fyd-eang drwy sioe fasnach bwyd môr fwyaf y byd ym Mrwsel bob blwyddyn a hefyd drwy deithiau masnach wedi'u targedu: 2017 - Tsieina, 2018 - Hong Kong.

Marchnadoedd domestig - nid y rhywogaethau bwyd môr sy'n cael eu dal yn rheolaidd yng Nghymru yw'r rhai sy'n cael eu bwyta yng Nghymru a'r DU fel arfer ac felly byddai angen newid amlgenhedlaeth mewn arferion bwyta i ddisodli'r marchnadoedd rhyngwladol gyda marchnadoedd domestig. Fodd bynnag, gallai unrhyw system gwota newydd weld newid mewn rhywogaethau a ddelir a bydd angen i Lywodraeth Cymru fod yn hyblyg o ran cynorthwyo'r diwydiant i sefydlu marchnadoedd ar gyfer y cynhyrchion hyn.

Brexit a'n moroedd a pholisi pysgodfeydd y dyfodol

Bwriedir i Brexit a'n moroedd ddechrau sgwrs a llywio ein polisi pysgodfeydd yn y dyfodol. Er mwyn cynnal ymarfer ymgynghori ystyrion yn hyn o beth, mae angen darlun gwell arnom yn gyntaf o'r trefniadau rheoli pysgodfeydd a fydd ar waith ar ôl gadael yr UE. O ganlyniad, cyhoeddir yr ymgynghoriad pan fyddaf yn hyderus ein bod yn gallu adlewyrchu'r sefyllfa ddiweddaraf.

Cofion,



Lesley Griffiths AC/AM

Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig
Minister for Environment, Energy and Rural Affairs

Ymateb Llywodraeth Cymru i Adroddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig (a gyhoeddwyd ar 12 Chwefror 2019): Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru mewn perthynas â Bil Pysgodfeydd y DU.

Argymhelliad / casgliad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig	Ymateb Llywodraeth Cymru
Argymhelliad y Pwyllgor	
<p>Rydym yn argymhell i'r Cynulliad ei fod yn cydsynio i'r darpariaethau ym Mil Pysgodfeydd y DU, yn amodol ar yr amodau canlynol -</p> <p>Dylai Llywodraeth Cymru geisio diwygiadau i Fil y DU i weithredu casgliadau 8, 10, 18, 20 a 22;</p> <p>a</p> <p>Dylai Llywodraeth Cymru roi ymrwymadau i'r Cynulliad, neu esboniadau lle bo'n briodol, mewn perthynas â'r materion a godwyd yng nghasgliadau 1, 4, 5, 6, 7, 9, 12, 14, 15, 16, 24 a 25.</p>	<p>Rwy'n croesawu eich argymhelliad i'r Cynulliad roi cydsyniad i'r darpariaethau ym Mil Pysgodfeydd y DU, yn ddibynnol ar amodau. Rwyf wedi nodi ymateb Llywodraeth Cymru i bob casgliad isod.</p>
Casgliadau'r Pwyllgor	
Yr angen am ddeddfwriaeth a'r dull gweithredu a fabwysiadwyd	
<p>Casgliad 1</p> <p>Dylai Llywodraeth Cymru esbonio pam ei bod wedi methu â chyflawni ymrwymadau a roddwyd ganddi i'r Pwyllgor hwn yn flaenorol mewn perthynas â datblygu fframweithiau cyffredin y DU. Yn benodol, dylai esbonio pam na ddatblygwyd Bil y DU mewn cydweithrediad a pham na chafodd rhanddeiliaid eu cynnwys yn ddigon cynnar yn ei ddatblygiad.</p> <p><i>Nodaf fod y pwyllgor wedi gofyn am ymrwymiad i'r Cynulliad, neu eglurhad ar y casgliad hwn.</i></p>	<p>Gwrthod</p> <p>Rwy'n derbyn fy mod wedi gwneud sylwadau yn nodi nad oeddem wedi ymwneud â'r gwaith o ddatblygu'r Bil i'r graddau y byddwn wedi'i ddymuno. Fodd bynnag, rwy'n gwrthod yr honiad nad oedd Llywodraeth Cymru wedi cyflawni ei hymrwymadau i ddatblygu Fframwaith Cyffredin y DU. Rwy'n llwyr gefnogi barn y Pwyllgor ar yr angen am gydweithredu rhynglywodraethol effeithiol wrth ddatblygu fframweithiau cyffredin a gallaf gadarnhau bod hyn yn digwydd er mwyn datblygu Fframwaith Cyffredin y DU ar gyfer pysgodfeydd.</p> <p>Datblygwyd y Bil ar y cyd ac yn fanwl ers ei gyflwyno a chytunwyd ar nifer o newidiadau ers hynny.</p> <p>Mae rheoli pysgodfeydd, o ran ei natur, wastad wedi galw am gydweithredu rhagorol ac aeddfed ledled y DU. Mae'r gwaith ar sefydlu'r Fframwaith Cyffredin</p>

	<p>wedi gwella hyn ac mae'n darparu cyfle i gryfhau'r cysylltiadau a'r arferion gwaith sydd eisoes yn gryf yn y maes hwn, a myfyrio arnynt.</p> <p>Ysgrifennais at y Pwyllgor ar 13 Chwefror 2019, gan roi diweddariad i gadarnhau bod swyddogion Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithio'n agos â chymheiriaid yn y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig, gan ddatblygu'r mecanweithiau manwl, cyfreithiol a gweinyddol, a fydd yn ffurfio Fframwaith Cyffredin y DU ar gyfer pysgodfeydd. Bydd hyn yn darparu'r fframwaith - bydd y manylion ar ffyrdd o weithio, a'r dulliau polisi, yn cael eu nodi mewn nifer o wahanol ddogfennau gan gynnwys Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth Pysgodfeydd, Mecanwaith Datrys Anghydfodau; a'r Cyd-ddatganiad Pysgodfeydd (JFS), a fydd yn destun proses graffu lawn yn y Cynulliad a chan randdeiliaid.</p>
<p>Casgliad 2</p> <p>Yn y dyfodol, disgwyliwn i Lywodraeth Cymru wneud datganiad i'r Cynulliad i gyd-fynd â chyflwyno unrhyw Filiau'r DU yn sgil Brexit sy'n deddfu mewn perthynas â Chymru. Yn ogystal, disgwyliwn i Lywodraeth Cymru ddatgan yn gyhoeddus ei safbwynt ar y darpariaethau perthnasol mewn unrhyw Filiau o'r fath, nodi pwerau y mae'n ceisio eu sicrhau, pryd mae angen y pwerau hyn, a sut y byddant yn cael eu defnyddio. Dylai hefyd wahaniaethu rhwng y pwerau sydd eu hangen yn y cyfnod yn union ar ôl Brexit, a'r rhai a fydd yn cael eu defnyddio i weithredu polisi yn y dyfodol.</p>	<p>Gwrthod</p> <p>Ni all Llywodraeth Cymru ymrwymo i wneud datganiad ar gyflwyno unrhyw Fil sy'n gysylltiedig â Brexit yn y DU, gan fod lefel yr ymgysylltiad rhwng Llywodraethau cyn eu cyflwyno yn amrywio'n sylweddol. Ar gyfer Biliau sy'n dod o fewn cwmplas Rheol Sefydlog 29, rydym yn gwneud pob ymdrech i gydymffurfio â'r gofyniad i osod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol ar gyfer Bil y DU fel arfer o fewn pythefnos i'w gyflwyno. Mae'r Rheol Sefydlog wedi'i drafftio'n briodol i adlewyrchu'r amser paratoi sydd ei angen a'r ffaith ei bod yn amhosibl gwarantu cwblhau hyn o fewn pythefnos - o ystyried yr angen am gyngor cyfreithiol manwl a thrafodaeth/negodi rhwng Llywodraethau. Ar gyfer Biliau sy'n gymwys i Gymru ond nad ydynt yn ymwneud â Rheolau Sefydlog 29 a 30, ni fyddem yn rhagweld y byddwn yn gwneud datganiad i'r Cynulliad fel mater o drefn, ond gallem dynnu sylw'r Aelodau atynt fel y bo'n briodol. Fodd bynnag, os oes gan bwyllgorau'r Cynulliad gwestiynau neu bryderon penodol mewn perthynas â Biliau'r DU ar unrhyw adeg, byddwn yn gwneud ein gorau i gynorthwyo gan ddefnyddio'r wybodaeth sydd gennym a'r dadansoddiad a wnaed ar y pryd.</p>

<p>Casgliad 3</p> <p>Rydym yn cydnabod bod angen deddfwriaeth i sefydlu fframwaith cyffredin y DU ar gyfer rheoli pysgodfeydd ar ôl Brexit. Rydym yn fodlon bod mwyafrif y darpariaethau ym Mil y DU yn angenrheidiol i gyflawni hyn. Fodd bynnag, mae'r Bil yn cynnwys darpariaethau ychwanegol sy'n mynd y tu hwnt i'r rheini sydd eu hangen i sefydlu fframwaith o'r fath. Nid yw Llywodraeth Cymru wedi egluro diben ac effaith y darpariaethau ychwanegol hyn. Fel y cyfryw, nid ydym wedi ein hargyhoeddi hyd yma bod Llywodraeth Cymru wedi darparu cyfiawnhad digonol ar gyfer y pwerau ychwanegol y mae'n eu ceisio trwy Fil y DU.</p>	<p>Gweler hefyd yr ymateb i Gasgliad 4</p> <p>Ar hyn o bryd dim ond cymhwysedd deddfwriaethol ar gyfer materion pysgodfeydd mewn perthynas â Chymru (h.y. y 12 milltir forol gyntaf o fôr tiriogaethol) sydd gan y Cynulliad. Fodd bynnag, mae Cymhwysedd Gweithredol Gweinidogion Cymru mewn perthynas â physgodfeydd yn ymestyn i Gymru ac i barth Cymru. Felly, er mwyn i'r Cynulliad wneud darpariaeth briodol mewn deddfwriaeth sylfaenol ar hyn o bryd, roedd angen bwrw ymlaen â'r darpariaethau mewn Bil Pysgodfeydd ar gyfer y DU. Mae Llywodraeth Cymru wedi gallu sicrhau'r cymhwysedd deddfwriaethol ychwanegol i'r Cynulliad drwy Fil Pysgodfeydd y DU ac, o ganlyniad, ni fydd y Cynulliad yn dioddef y cyfyngiad hwn ar ei gymhwysedd deddfwriaethol wrth inni symud ymlaen.</p>
<p>Casgliad 4</p> <p>Er mwyn mynd i'r afael â'r pryderon yng Nghasgliad 3, dylai Llywodraeth Cymru egluro pwrpas ac effaith arfaethedig y pwerau gweithredol i Weinidogion Cymru yn Atodlenni 4, 6 a 7. Dylai nodi pa rai o'r pwerau hyn sydd o natur frys, ac a fyddai'n rhesymol gohirio unrhyw rai o'r pwerau hyd nes bod cymhwysedd y Cynulliad wedi'i ymestyn i ganiatáu cyflwyno Bil pysgodfeydd i Gymru yn y dyfodol.</p> <p><i>Nodaf fod y pwyllgor wedi gofyn am ymrwymiad i'r Cynulliad, neu eglurhad ar y casgliad hwn.</i></p>	<p>Derbyn</p> <p>Rwy'n cydnabod y pryderon ynghylch defnyddio Bil y DU i wneud darpariaethau ar gyfer Cymru ac rwy'n credu'n gryf bod y darpariaethau yn y Bil yn rhai trosiannol nes y gallwn wneud deddfwriaeth sylfaenol yng Nghymru. Fodd bynnag, mae'n briodol ceisio'r pwerau hyn nawr er mwyn ein galluogi i gymryd camau cyflym a phendant yng Nghymru, mewn dyfodol ansicr, sy'n cyflwyno'r cyfleoedd mwyaf i'n polisi pysgodfeydd yn y dyfodol agos.</p> <p>Mae Brexit yn golygu bod brys i sicrhau bod trefniadau ar waith ar unwaith ond gan gadw ein gallu i greu systemau newydd yn y dyfodol.</p> <p>Mae'r pwerau gweithredol yn Atodlenni 4, 6 a 7 yn darparu'r pwerau angenrheidiol i Weinidogion Cymru reoli pysgodfeydd mewn ffordd hyblyg yn y dyfodol.</p> <p>Mae Atodlen 4 yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru greu cynlluniau cymorth ariannol mewn perthynas â Chymru.</p> <p>Mae Atodlen 7 yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru drwy ddiwygiadau i Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 mewn perthynas â manteisio ar adnoddau</p>

	<p>pysgodfeydd y môr. Ni ellid bod wedi cynnwys yr un o'r darpariaethau hyn mewn Bil Pysgodfeydd i Gymru ar hyn o bryd gan fod y ddwy ddarpariaeth yn cynnwys elfennau sy'n berthnasol ym mharth Cymru y tu hwnt i Gymru lle nad oes gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru unrhyw gymhwysedd ar hyn o bryd.</p> <p>Efallai y bydd angen arfer y pwerau a ddarperir gan Fil Pysgodfeydd y DU ar y diwrnod cyntaf ar ôl ymadael â'r UE neu'n fuan iawn wedi hynny. Gyda'r posibilrwydd o ymadael heb gytundeb cyn gynted â diwedd mis Mawrth, nid ydym mewn sefyllfa i aros am Fil Pysgodfeydd ar gyfer Cymru (a fyddai, ar hyn o bryd, ond yn gallu cwmpasu Cymru beth bynnag). Y dewis arall fyddai dibynnu ar yr Ysgrifennydd Gwladol i ddeddfu ar gyfer Cymru a pharth Cymru yn y cyfamser. Gan fod Pysgodfeydd yn fater datganoledig nid wyf yn teimlo bod hyn yn dderbyniol.</p>
<p>Casgliad 5</p> <p>Mae gan Lywodraeth Cymru reolaeth dros ei rhaglen ddeddfwriaethol. Dylai ymrwymo y bydd amser yn cael ei neilltuo yn y rhaglen ddeddfwriaethol i gyflwyno Bil pysgodfeydd i Gymru a'i basio cyn diwedd tymor y Pumed Cynulliad.</p> <p><i>Nodaf fod y pwyllgor wedi gofyn am ymrwymiad i'r Cynulliad, neu eglurhad ar y casgliad hwn.</i></p>	<p>Gwrthod</p> <p>O ran Bil Pysgodfeydd i Gymru, mae'n amlwg y bydd angen inni roi unrhyw ddarpariaethau ychwanegol angenrheidiol ar lyfr statud Cymru. Rwyf wedi egluro bod y pwerau yr ydym yn eu ceisio ym Mil Pysgodfeydd y DU yn rhai trosiannol. Fodd bynnag, nes bod Bil Pysgodfeydd y DU wedi cwblhau ei daith drwy Senedd y DU mae'n anodd ymrwymo i amserlen. Rydym yn dibynnu ar nifer o ddarpariaethau, ac yn arbennig ymestyn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad.</p>
<p>Casgliad 6</p> <p>Dylai Llywodraeth Cymru esbonio sut y bydd yn sicrhau bod barn y Cynulliad yn cael ei hadlewyrchu ym Mil y DU, o ystyried y diffyg amser sydd ar gael cyn i Bil y DU gwblhau ei daith drwy Senedd San Steffan.</p> <p><i>Nodaf fod y pwyllgor wedi gofyn am ymrwymiad i'r Cynulliad, neu eglurhad ar y casgliad hwn.</i></p>	<p>Derbyn</p> <p>O heddiw ymlaen, rydym yn aros am gadarnhad o'r dyddiad ar gyfer Adroddiad Tŷ'r Cyffredin a'r cyfnodau nesaf o ran hynt y Bil. Mae hynt Bil y DU wedi cael ei ohirio ers mis Rhagfyr ac o'r herwydd, rydym wedi gallu symud ymlaen â'r gwelliannau ychwanegol a geisir a dylanwadu ar Lywodraeth y DU yn y meysydd hyn. Yn ogystal, ers derbyn yr adroddiadau craffu, mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno sylwadau pellach i Lywodraeth y DU sy'n adlewyrchu barn y Pwyllgor mewn nifer o feysydd. Rwyf wedi nodi'r hyn a wnaed yn erbyn y casgliadau perthnasol, yn yr</p>

	<p>ymateb hwn.</p> <p>Hoffwn eich sicrhau hefyd fy mod yn ymwybodol o'r angen i drafod y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol (a darparu'r wybodaeth angenrheidiol cyn hynny) ac mae fy swyddogion yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth y DU i sicrhau bod amser ar gael yn ystod hynt y Bil.</p>
<p>Amcanion yn ymwneud â physgodfeydd</p>	
<p>Casgliad 7</p> <p>Yn gyffredinol, rydym yn fodlon gyda'r amcanion pysgodfeydd, yn amodol ar ymrwymiad y bydd y Cyd-ddatganiadau Pysgodfeydd yn cynnwys cerrig milltir a, lle bo'n briodol, dargedau penodol ac uchelgeisiol y gellir eu defnyddio i fesur cynnydd. Dylai'r rhain gael eu datblygu gan weinyddiaethau'r DU mewn cydweithrediad a dylent gynnwys gofyniad i beidio â mynd y tu hwnt i derfynau'r Cynnyrch Cynaliadwy Mwyaf. Disgwyliwn i Lywodraeth Cymru fwrw ymlaen â hyn fel rhan o'i thrafodaethau parhaus y Cyd-ddatganiad Pysgodfeydd.</p> <p><i>Nodaf fod y pwyllgor wedi gofyn am ymrwymiad i'r Cynulliad, neu eglurhad ar y casgliad hwn.</i></p>	<p>Derbyn</p> <p>Rwy'n croesawu eich cefnogaeth i'r amcanion pysgodfeydd ac rwyf wedi ymrwymo i osod cerrig milltir a thargedau penodol ac uchelgeisiol, lle y bo'n briodol, ac yn dilyn ystyriaeth gyda rhanddeiliaid, yn y JFS. Mae hyn yn cynnwys ymrwymadau priodol mewn perthynas â chyfyngiadau pysgota nad ydynt yn fwy na'r Cynnyrch Cynaliadwy Mwyaf.</p> <p>Rhaid i'r JFS gael ei ddatblygu a'i gytuno gyda gweinyddiaethau pysgodfeydd eraill, a bydd pob deddfwrfa o amgylch y DU yn craffu arno. Bydd rhanddeiliaid Cymru yn cael y cyfle i ddylanwadu ar gynnwys y JFS ar gyfer Cymru a byddwn yn sefydlu rhaglen o ddigwyddiadau ymgysylltu, a fydd yn hysbysu ac yn llywio cynnwys y JFS.</p>
<p>Casgliad 8</p> <p>O fewn 6 blynedd o basio Bil y DU, dylai gweinyddiaethau'r DU gynnal adolygiad ar y cyd o'r amcanion pysgodfeydd i sicrhau eu bod yn addas i'r diben. Disgwyliwn i Lywodraeth Cymru roi hyn ar waith gyda gweinyddiaethau eraill y DU gyda'r nod o sicrhau bod trefniadau ar gyfer adolygu'r amcanion wedi'u cynnwys ym Mil y DU. Os na ellir cytuno ar hyn, disgwyliwn i ymrwymiad i gynnal adolygiad gael ei gynnwys yn y Cytundeb Fframwaith Rheoli Pysgodfeydd.</p> <p><i>Nodaf yr hoffai'r Pwyllgor weld gwelliant i'r Bil mewn perthynas â'r casgliad hwn.</i></p>	<p>Derbyn</p> <p>Rwy'n cytuno ei bod yn briodol adolygu'r amcanion er mwyn sicrhau eu bod yn addas at y diben.</p> <p>Mae fy swyddogion wedi codi'r posibilrwydd o gyflwyno gwelliant i'r Bil i'w gwneud yn ofyniad i adolygu amcanion, gyda Llywodraeth y DU a'r Gweinyddiaethau Datganoledig. Mae'r trafodaethau'n parhau. Os na allaf gytuno ar welliant i'r Bil, rwyf yn llwyr gefnogi cynnal adolygiad ar y cyd o'r amcanion ac rwyf wedi gofyn, fan leiaf, i hyn gael ei gynnwys yn y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ar Bysgodfeydd fel rhan o adolygiad 6 blynedd o'r JFS.</p>
<p>Casgliad 9</p> <p>Fel rhan o'i hymgyngoriad <i>Brexit a'n Moroedd</i>, dylai Llywodraeth Cymru archwilio a yw'n briodol cynnwys</p>	<p>Derbyn</p> <p>Mae Gweinidogion Cymru wedi ymrwymo i gymryd pob cam rhesymol i gyflawni'r amcanion pysgodfeydd, sy'n darparu</p>

<p>dyletswydd ym Mil pysgodfeydd i Gymru yn y dyfodol ar Weinidogion Cymru i gymryd pob cam rhesymol i gyflawni'r amcanion pysgodfeydd.</p> <p><i>Nodaf fod y pwyllgor wedi gofyn am ymrwymiad i'r Cynulliad, neu eglurhad ar y casgliad hwn.</i></p>	<p>fframwaith clir ar gyfer gwneud penderfyniadau polisi pysgodfeydd yn y DU.</p> <p>Fy mwriad yw y bydd yr ymgynghoriad Brexit a'n Moroedd yn ddechrau sgwrs barhaus gyda'n rhanddeiliaid yng Nghymru, a fydd yn llywio datblygiad polisi pysgodfeydd Cymru yn y dyfodol.</p> <p>Rwy'n cydnabod y pryderon a godwyd gan y Pwyllgor a rhanddeiliaid ar y pwynt hwn ac rwy'n fodlon ystyried a yw'n briodol cynnwys dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gymryd pob cam rhesymol i gyflawni'r amcanion pysgodfeydd mewn Bil Pysgodfeydd i Gymru yn y dyfodol.</p>
<p>Datganiadau Pysgodfeydd</p>	
<p>Casgliad 10</p> <p>Dylai Bil y DU gael ei ddiwygio i gynnwys gofyniad i'r awdurdodau polisi pysgodfeydd adrodd i'r ddeddfwrfa berthnasol ar y cynnydd a wnaed o ran gweithredu polisiau ac o ran cyflawni'r amcanion pysgodfeydd. Disgwylw'n i Lywodraeth Cymru gyflwyno sylwadau i Lywodraeth y DU a gweinyddiaethau datganoledig eraill yn hyn o beth.</p> <p>Os na ellir dod i gytundeb, dylai Llywodraeth Cymru ymrwymo i adrodd i'r Cynulliad bob tair blynedd yn dechrau ar y dyddiad y caiff y JFS cyntaf ei gyhoeddi. Dylai'r adroddiad hwn ddefnyddio'r polisiau yn y JFS fel pwynt cyfeirio a dylai fesur cynnydd yn erbyn yr amcanion pysgodfeydd ac amcanion perthnasol eraill, fel y rheini sydd wedi'u cynnwys yn neddfwriaeth Cymru.</p> <p><i>Nodaf yr hoffai'r Pwyllgor weld gwelliant i'r Bil mewn perthynas â'r casgliad hwn.</i></p>	<p>Derbyn</p> <p>Rwyf wedi cyflwyno sylwadau i Lywodraeth y DU a'r Gweinyddiaethau Datganoledig eraill ar hyn ac rwy'n obeithiol y gallwn gyflawni gwelliant ar y pwynt hwn. Man lleiaf, rwy'n fodlon ymrwymo i adrodd i'r Cynulliad bob tair blynedd, gan ddechrau o'r dyddiad y cyhoeddir y JFS cyntaf.</p>
<p>Casgliad 11</p> <p>Dylai Llywodraeth Cymru egluro diben a chynnwys arfaethedig y Cytundeb Fframwaith Rheoli Pysgodfeydd. Dylai egluro pa gyfleoedd fydd ar gael i randdeiliaid lywio datblygiad y Cytundeb a sut y gall y Cynulliad graffu arno. Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi'r Cytundeb cyn gynted â phosibl.</p>	<p>Derbyn</p> <p>Wrth inni adael yr Undeb Ewropeaidd, bydd pwerau sydd wedi'u harfer ar lefel yr UE yn dychwelyd i'r deddfwrfeydd a'r gweinyddiaethau priodol yn dibynnu ar y setliadau datganoli. Mae rheoli pysgodfeydd yn fater cwbl ddatganoledig bron. Fodd bynnag, gan fod stociau pysgod yn adnodd naturiol a rennir, mae angen sefydlu fframwaith cyffredin yn y DU. Mae'r</p>

	<p>fframwaith hwn yn cwmpasu ystod o atebion deddfwriaethol ac anneddfwriaethol yn amrywio o ddarpariaethau sydd wedi'u cynnwys o fewn Bil Pysgodfeydd y DU, gan gynnwys y JFS, a deddfwriaeth yr UE a fydd yn cael ei chadw, i ystod o Femoranda Cyd-ddealltwriaeth a Choncordatau. Mae unrhyw atebion deddfwriaethol yn destun prosesau craffu ac ymgynghori priodol â rhanddeiliaid.</p> <p>Bydd y JFS yn cael ei ddatblygu ar y cyd â rhanddeiliaid yn unol â darpariaethau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, a bydd yn destun prosesau craffu ac ymgynghori fel y nodir yn y Bil Pysgodfeydd.</p> <p>O ran y Memoranda Cyd-ddealltwriaeth, cytundebau gweinyddol fydd y rhain lunnir gan y gweinyddiaethau pysgodfeydd. Byddaf yn ystyried priodoldeb cyhoeddi'r Memoranda Esboniadol fesul achos wrth drafod gyda'r gweinyddiaethau eraill. Rwy'n ymwybodol o'r angen i ddarparu trefniadau tryloyw a chlr ar gyfer diwydiant a rhanddeiliaid ehangach wrth inni adael yr UE, a bydd swyddogion yn codi hyn mewn trafodaethau â'u cymheiriaid.</p>
--	----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------

Mynediad i bysgodfeydd Prydain

<p>Casgliad 12</p> <p>Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod buddiannau pysgodfeydd Cymru yn cael eu cynrychioli'n llawn mewn trafodaethau ynghylch mynediad i farchnadoedd a chytundebau masnach gyda'r UE yn y dyfodol.</p> <p><i>Nodaf fod y pwyllgor wedi gofyn am ymrwymiad i'r Cynulliad, neu eglurhad ar y casgliad hwn.</i></p>	<p>Derbyn</p> <p>Rwy'n cytuno'n llwyr ac yn cadarnhau bod Llywodraeth Cymru yn cynrychioli buddiannau pysgodfeydd Cymru wrth drafod mynediad i farchnadoedd a chytundebau masnach yn y dyfodol gyda'r UE.</p>
----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------	----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------

<p>Casgliad 13</p> <p>Dylai Llywodraeth Cymru roi rhagor o fanylion ar y cynnig i'r Sefydliad Rheoli Morol gyhoeddi trwydded unigol i longau pysgota tramor. Dylai Llywodraeth Cymru egluro sut y byddai hyn yn effeithio ar ei phŵer i roi trwyddedau, yn arbennig, gallu Gweinidogion Cymru i osod amodau trwydded penodol ar gychod pysgota tramor mewn perthynas â pharth Cymru.</p>	<p>Derbyn</p> <p>Bydd yr Awdurdod Dyroddi Sengl, sydd i'w gynnal gan Sefydliad Rheoli Morol, yn gweithredu ar ran yr holl weinyddiaethau pysgodfeydd i ddyroddi trwyddedau i longau pysgota tramor. Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Llywodraethau'r DU, gweinyddiaethau pysgodfeydd eraill a'r Sefydliad Rheoli Morol i sicrhau y caiff y broses o ddyroddi trwyddedau i longau</p>
-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------	---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------

<p>Er enghraifft, mynnu bod monitro CCTV ar fwrdd llongau.</p>	<p>tramor ei gweithredu'n effeithiol.</p> <p>Er y bydd y gwaith ymarferol o ddyroddi trwyddedau yn cael ei wneud gan yr Awdurdod Dyroddi Sengl, bydd yn cael ei wneud ar ran Gweinidogion Cymru a mater i Weinidogion Cymru fydd gosod amodau trwydded priodol a chymesur mewn perthynas â Chymru a pharth Cymru.</p>
<p>Casgliad 14</p> <p>Dylai Llywodraeth Cymru roi rhagor o fanylion am sut y mae'n bwriadu defnyddio amodau trwyddedu ar gyfer llongau'r DU i sicrhau cydymffurfiaeth â safonau amgylcheddol ym mharth Cymru. Yn arbennig, dylai Llywodraeth Cymru nodi sut y bydd amodau trwydded yn cael eu defnyddio i fynd i'r afael â llygredd plastig a materion cysylltiedig eraill.</p> <p><i>Nodaf fod y pwyllgor wedi gofyn am ymrwymiad i'r Cynulliad, neu eglurhad ar y casgliad hwn.</i></p>	<p>Derbyn</p> <p>Mae gan Lywodraeth Cymru y pŵer i drwyddedu llongau o Gymru, a bydd ganddo'r pŵer i drwyddedu llongau tramor yng Nghymru a pharth Cymru. Nid oes gennym fodd o drwyddedu llongau eraill yn y DU yn ein dyfroedd gan y byddant yn cael eu trwyddedu gan eu priod weinyddiaethau (er y gellir rheoli eu gweithredoedd, yn ôl yr angen, drwy is-ddeddfwriaeth sy'n benodol i'r gweithgaredd y mae angen ei reoli).</p> <p>Mae llygredd plastig yn broblem fawr ac mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i fynd i'r afael â'r broblem hon.</p> <p>Er fy mod yn awyddus i ymchwilio i opsiynau ar gyfer mynd i'r afael â gwastraff plastig, nid wyf yn credu mai trwyddedau pysgota yw'r mecanwaith priodol ar gyfer mynd i'r afael â'r mater hwn.</p>
<p>Casgliad 15</p> <p>Dylai Llywodraeth Cymru egluro'r amgylchiadau lle mae'n rhagweld y bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn defnyddio'r pwerau yng nghymalau 9 ac 11, i newid yr eithriadau i wahardd llongau Prydeinig neu dramor rhag pysgota yn nyfroedd Prydain heb drwydded. Dylai Llywodraeth Cymru egluro sut y bydd unrhyw anghydfod posibl ynghylch arfer y pwerau hyn yn cael eu datrys. Yn y man lleiaf, rydym yn disgwyl i fecanwaith datrys anghydfod gael ei gynnwys yn y Cytundeb Fframwaith Rheoli Pysgodfeydd.</p> <p><i>Nodaf fod y pwyllgor wedi gofyn am ymrwymiad i'r Cynulliad, neu eglurhad ar y casgliad hwn.</i></p>	<p>Derbyn</p> <p>Fel yr adlewyrchir gan gymalau 9 - 11, mae arfer y pŵer hwn i wneud rheoliadau yn gofyn am ganiatâd gan Weinidogion Cymru. Gallaf gadarnhau y bydd y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ar Bysgodfeydd yn nodi ffyrdd o weithio mewn perthynas â'r pwerau hyn ac mae Mecanwaith Datrys Anghydfodau cadarn hefyd yn cael ei sefydlu. Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Llywodraethau'r DU i gytuno ar y manylion angenrheidiol hyn.</p>
<p>Cyfleoedd pysgota a chyfran o'r cwota</p>	
<p>Casgliad 16</p>	<p>Derbyn mewn egwyddor</p>

<p>Mae Bil y DU yn gyfle a gollwyd i ailfantoli'r annhegwch sylfaenol wrth ddyrannu cwota'r DU. Os nad yw hyn yn cael ei ddatrys, prin iawn fydd y manteision i bysgodfeydd Cymru yn sgil Brexit.</p> <p><i>Nodaf fod y pwyllgor wedi gofyn am ymrwymiad i'r Cynulliad, neu eglurhad ar y casgliad hwn.</i></p>	<p>Rwy'n derbyn yr angen i ailgydbwysu'r annhegwch sylfaenol wrth ddyrannu cwota a byddaf yn pwyso am hyn. Fodd bynnag, nid Bil Pysgodfeydd y DU yw'r lle priodol i unioni'r mater hwn.</p> <p>Caiff cwotâu eu rheoli drwy fecanweithiau gweinyddol o dan y fframwaith deddfwriaethol eang a nodir yn y Polisi Pysgodfeydd Cyffredin. Nid oes angen darpariaethau deddfwriaethol arnom er mwyn gallu ailgydbwysu'r cwota.</p>
<p>Casgliad 17</p> <p>Awgrymw'n y canlynol fel dull teg a chynaliadwy o ddyrannu cwota'r DU yn y dyfodol:</p> <p>Yn gyntaf, dylai Erthygl 17 y CFP (sy'n cael ei ddiwygio gan Fil y DU) gael ei ddiwygio i fynd i'r afael â'r diffygion a nodwyd gan randdeiliaid. Yn arbennig, bod gormod o bwyslais ar y ddalfa hanesyddol wrth ddyrannu cwota ar draul meini prawf amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd.</p> <p>Yn ail, dylai'r Concordat Pysgodfeydd gael ei adolygu i adlewyrchu pwyslais cynyddol ar feini prawf amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd wrth ddyrannu cwota i'r gwledydd sy'n rhan o'r DU. Dylai Llywodraeth Cymru fanteisio'n llawn ar unrhyw adolygiad o'r Concordat Pysgodfeydd a gynhelir yn y dyfodol i sicrhau cynnydd yn y cwota a ddyrennir i Gymru.</p> <p>Disgwyliwn i Lywodraeth Cymru ymgysylltu â gweinyddiaethau'r DU i'r perwyl hwn.</p>	<p>Derbyn mewn egwyddor</p> <p>Nid oes angen diwygio Erthygl 17 er mwyn ei gwneud yn ofynnol i'r DU roi'r gorau i ddefnyddio daliadau hanesyddol fel y priff ffactor ar gyfer penderyfnuj ar ddyraniad. Mae Erthygl 17 yn darparu ystod o ystyriaethau.</p> <p>Rwyf o'r farn bod yn rhaid i unrhyw ddull newydd fod yn deg ac yn gynaliadwy yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, sef deddf yr wyf wedi ymrwymo iddi.</p> <p>Mae Llywodraeth Cymru eisoes mewn trafodaeth â Llywodraeth y DU a'r weinyddiaeth ddatganoledig arall ar nifer o faterion lle y byddwn yn chwilio am newid.</p>
<p>Casgliad 18</p> <p>Dylid dyrannu unrhyw gwota newydd sy'n deillio o Brexit yn unol â meini prawf amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd, gyda'r nod o fynd i'r afael â'r diffyg cydbwysedd yng nghyfran Cymru o'r cwota.</p> <p><i>Nodaf yr hoffai'r Pwyllgor weld gwelliant i'r Bil mewn perthynas â'r casgliad hwn.</i></p>	<p>Derbyn</p> <p>Cytunaf y dylid dyrannu unrhyw gwota newydd yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Rwyf wedi ymrwymo i ailbwysleisio'r gyfran o anghydfodau yng nghwota Cymru ac mae trafodaethau eisoes wedi dechrau gyda Llywodraeth y DU a Gweinyddiaethau Datganoledig eraill.</p> <p>Fel y nodir uchod, gwneir gwaith rheoli cwotâu drwy fecanweithiau gweinyddol.</p>

<p>Casgliad 19</p> <p>Rydym yn rhannu pryderon Llywodraeth Cymru ynghylch hyd a lled pwerau'r Ysgrifennydd Gwladol mewn perthynas â phenderfynu ar gyfleoedd pysgota. Nodwn fod hwn yn llinell goch i'r Gweinidog. Credwn mai'r ffordd fwyaf priodol o fynd i'r afael â'r mater hwn yw trwy ddiwygio Bil y DU.</p>	<p>Derbyn</p> <p>Mae hyn yn llinell goch i mi ac rydym wedi gofyn am welliannau i'r Bil ar y mater hwn. Nid ydym wedi gallu dod i gytundeb â Llywodraeth y DU ar welliant a fyddai'n datrys y mater hwn yn benodol. Fodd bynnag, rwy'n fodlon ein bod wedi gwneud cynnydd ar y mater (a ddisgrifir isod) ac rwy'n fodlon ar y dull gweithredu yr ydym wedi cytuno arno gyda Llywodraeth y DU.</p> <p>Er mwyn lleddfu'r pryderon a godwyd, mae fy swyddogion wedi gweithio gyda Defra i gael sicrwydd pellach. Rwyf wedi dod i gytundeb â'r Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig i nodi yn y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ar Bysgodfeydd, mwy o fanylion ar y defnydd arfaethedig o'r pŵer a phrosesau ymgynghori cryfach. Bydd hyn yn cysoni'r gwaith sydd eisoes ar y gweill ar sefydlu Mekanwaith Datrys Anghydfodau y cytunwyd arno. Mae swyddogion yn cydweithio fel mater o flaenoriaeth i gytuno ar y manylion sydd eu hangen. Rwy'n bwriadu rhannu canlyniad y trafodaethau hyn cyn y ddadl ar y cynnig cydsyniad.</p>
<p>Casgliad 20</p> <p>Nid ydym wedi ein hargyhoeddi bod Llywodraeth Cymru wedi gwneud digon, hyd yma, i sicrhau cyfran deg o'r dyraniad cwota ar gyfer pysgodfeydd Cymru. Cyfyngodd Concordat Pysgodfeydd 2012 ar dwf y sector a rhoi pysgodfeydd Cymru dan anfantais ddifrifol. Wrth i'r DU adael yr UE, credwn fod rhaid i Lywodraeth Cymru wneud mwy. Disgwylwn i'r Gweinidog ddarparu tystiolaeth glir o'r camau mae'n eu cymryd i sicrhau gwelliannau yng nghyfran Cymru o'r cwota.</p> <p><i>Nodaf yr hoffai'r Pwyllgor weld gwelliant i'r Bil mewn perthynas â'r casgliad hwn.</i></p>	<p>Derbyn</p> <p>Rwy'n cytuno bod mwy y gallwn ei wneud i sicrhau cyfran decach o gyfleoedd pysgota</p> <p>Mae trafodaethau ynghylch dosbarthu cyfleoedd pysgota yn y dyfodol eisoes wedi dechrau. Mae'r sail ar gyfer dosbarthu cyfleoedd pysgota yng Nghymru wedi'i nodi ar hyn o bryd yn rheolau rheoli cwota pysgodfeydd y DU. Bydd dyrannu cyfleoedd pysgota yn y dyfodol yn destun ymgynghoriad wrth inni weithio gyda rhanddeiliaid i ddatblygu'r polisi pysgodfeydd yn y dyfodol y cyfeirir ato yn Ffyniant i Bawb.</p> <p>Ni chredaf fod gwelliant yn angenrheidiol i'r Bil yn hyn o beth.</p>
<p>Pwerau o ran cymorth ariannol a chyllid yn y dyfodol</p>	
<p>Casgliad 21</p> <p>Dylai fod yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori ar gynigion ar gyfer unrhyw gynllun cymorth ariannol sy'n cael ei</p>	<p>Derbyn</p> <p>Dylai datblygu is-ddeddfwriaeth fod yn seiliedig ar ymgysylltu ac ymgynghori priodol â rhanddeiliaid, ar sail y dystiolaeth</p>

<p>sefydlu yn y dyfodol o dan Atodlen 4. Disgwyliwn i Lywodraeth Cymru gyflwyno sylwadau i Lywodraeth y DU yn hyn o beth.</p>	<p>orau sydd ar gael. Mae Llywodraeth Cymru wedi cynhyrchu canllawiau ar ymgynghoriadau, ac mae Cod Asesu Effaith Rheoleiddiol Gweinidogion Cymru yn nodi ymrwymïadau Llywodraeth Cymru i ymgynghori mewn perthynas ag is-ddeddfwriaeth a'r hyn y dylai'r ymgynghoriad ei gynnwys</p> <p>Nodaf hefyd fod y pŵer i wneud rheoliadau i sefydlu cynllun yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad cadarnhaol.</p> <p>Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno sylwadau i Lywodraeth y DU i ddiwygio'r Bil yn hyn o beth ac mae trafodaethau ar y gweill.</p>
<p>Casgliad 22</p> <p>Credwn fod gwerth mewn sicrhau bod unrhyw gynllun cymorth ariannol yn y dyfodol yn seiliedig ar yr amcanion pysgodfeydd. Credwn y dylid ystyried hyn fel rhan o ymgynghoriad <i>Brexit a'n Moroedd</i> Llywodraeth Cymru a dylai, os yw'n briodol, fod yn rhan o Fil pysgodfeydd Cymru yn y dyfodol.</p> <p><i>Nodaf yr hoffai'r Pwyllgor weld gwelliant yn cael ei gyflwyno i'r Bil mewn perthynas â'r casgliad hwn.</i></p>	<p>Derbyn</p> <p>Cytunaf fod gwerth i unrhyw gynllun cymorth ariannol yn y dyfodol gael ei ategu gan yr amcanion pysgodfeydd. Rwy'n fodlon ymchwilio i syniadau fel rhan o'n hymgyngoriad "Brexit a'n moroedd". Fodd bynnag, bydd angen ystyried cynigion manwl ar unrhyw gynlluniau cymorth ariannol yn y dyfodol wrth i'n polisi gael ei lunio.</p> <p>Nodaf yr hoffai'r Pwyllgor weld gwelliant yn cael ei gyflwyno o ran y pwynt hwn. Fodd bynnag, ni chredaf fod angen datrys y mater hwn. Byddaf yn ystyried hyn ac os yw'n briodol, gellid ystyried dull o'r fath i'w gynnwys mewn Bil Pysgodfeydd ar gyfer Cymru yn y dyfodol.</p>
<p>Casgliad 23</p> <p>Dylai Llywodraeth Cymru geisio ymrwymiad gan Lywodraeth y DU y bydd trefniadau cyllido'r sector pysgodfeydd yn y dyfodol yn cael eu datblygu mewn partneriaeth â'r gweinyddiaethau datganoledig ac y bydd partneriaid yn cael eu trin â pharch cydradd. Dylai hefyd ofyn am ymrwymiad y dylai lefel y cyllid ystyried unrhyw gostau ychwanegol sy'n deillio o Fil y DU.</p>	<p>Derbyn</p> <p>Rydym yn gweithio gyda Llywodraeth y DU a'r Gweinyddiaethau Datganoledig eraill i nodi cyfleoedd i gynyddu twf economaidd sectorau morol y DU i'r eithaf. Bydd y gwaith hwn yn llywio polisi o ran y ffordd orau o gefnogi twf cynaliadwy'r gwahanol sectorau diwydiant mewn ffordd strategol a symlach.</p>
<p>Casgliad 24</p> <p>Mae'r wybodaeth ariannol a roddwyd i gefnogi'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn, a Memoranda</p>	<p>Gwrthod</p> <p>Wrth gwrs, mae'n agored i'r Pwyllgor ofyn am ragor o wybodaeth am unrhyw agwedd gan gynnwys gwybodaeth ariannol a</p>

<p>Cydsyniad Deddfwriaethol eraill sy'n gysylltiedig â Brexit, y gofynnwyd i'r Pwyllgor hwn eu hystyried wedi bod yn enbyd o brin. Mae hyn wedi amharu ar y gwaith craffu. At hynny, mae diffyg gwybodaeth o'r fath yn golygu bod risg o gamarwain y Cynulliad ynghylch y goblygiadau ariannol posibl sy'n deillio o'r ddeddfwriaeth Rhaid i Lywodraeth Cymru fynd i'r afael â'r mater hwn. Os na fydd yn gwneud hynny, byddwn yn gofyn i'r Pwyllgor Cyllid ystyried hyn ac, os oes angen, cyflwyno diwygiadau priodol i'r Rheolau Sefydlog.</p> <p><i>Nodaf fod y pwyllgor wedi gofyn am ymrwymiad i'r Cynulliad, neu eglurhad ar y casgliad hwn.</i></p>	<p>byddwn yn darparu cymaint o wybodaeth â phosibl. Nid wyf yn ymwybodol o unrhyw geisiadau am wybodaeth ariannol yn ystod y cyfnod pan oedd y Pwyllgor yn craffu ar y memoranda ar Fil Pysgodfeydd y DU. Rydym wedi cydymffurfio â'r gofynion, fel y nodir yn Rheol Sefydlog 29, o ran yr hyn y mae'n rhaid ei gynnwys mewn memorandwm cydsyniad deddfwriaethol. Byddwn wedi gobeithio y byddai'r Pwyllgor wedi codi'r mater hwn gyda ni yn gynharach yn y broses graffu pe bai'n teimlo bod diffyg gwybodaeth yn llesteirio'r gwaith craffu. Byddem yn anelu at ymateb yn ddi-oed i unrhyw geisiadau o'r fath yn y dyfodol.</p>
<p>Mynediad i farchnadoedd</p>	
<p>Casgliad 25</p> <p>Rydym yn ailadrodd yr argymhelliad yn ein hadroddiad, <i>Effaith Brexit ar bysgodfeydd yng Nghymru</i>, y dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi strategaeth benodol ac uchelgeisiol i dyfu pysgodfeydd Cymru. Bydd ymgynghoriad Llywodraeth Cymru, <i>Brexit a'n Moroedd</i>, yn cael ei gyhoeddi ym mis Mawrth, a bydd canlyniad yr ymgynghoriad yn llywio datblygiad polisi pysgodfeydd yn y dyfodol. Disgwylwn i'r ymgynghoriad adlewyrchu'r datblygiadau diweddaraf a chynnwys cynigion i liniaru'r risgiau cysylltiedig.</p> <p><i>Nodaf fod y pwyllgor wedi gofyn am ymrwymiad i'r Cynulliad, neu eglurhad ar y casgliad hwn.</i></p>	<p>Derbyn</p> <p>Bwriad yr ymgynghoriad "Brexit a'n moroedd" yw dechrau sgwrs a llywio ein polisi pysgodfeydd yn y dyfodol. Cytunaf y dylai'r ymgynghoriad adlewyrchu datblygiadau diweddaraf Brexit. Fodd bynnag, dim ond ar ôl i ganlyniadau trafodaethau Brexit ddod yn gliriach y gellir cyflawni hyn. Bydd yr ymgynghoriad yn cael ei gyhoeddi pan fyddaf yn hyderus ein bod yn gallu adlewyrchu'r datblygiadau diweddaraf a, chyn belled ag y bo modd, lliniaru'r risgiau cysylltiedig.</p>
<p>Cynllun codi tâl er mwyn atal gwaredu pysgod</p>	
<p>Casgliad 26</p> <p>Dylai Llywodraeth Cymru ystyried, fel rhan o'i hymgyngoriad <i>Brexit a'n Moroedd</i>, a fyddai'n briodol cyflwyno cynllun codi tâl i atal gwaredu pysgod ym Mil pysgodfeydd Cymru yn y dyfodol.</p>	<p>Derbyn</p> <p>Rwy'n fodlon ystyried a ddylid cynnwys cynllun atal gwaredu pysgod mewn Bil Pysgodfeydd i Gymru yn y dyfodol.</p> <p>Ni fydd Brexit a'n Moroedd yn ystyried atal gwaredu pysgod yn benodol. Fodd bynnag, byddwn yn dechrau trafodaeth ynglŷn â'r ffordd orau o reoli ein pysgodfeydd mewn ffordd gynaliadwy sy'n cynnwys atal gwaredu pysgod mewn cyd-destun Cymreig.</p>